| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **24 Medi 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Cyng. David Smith** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Graham Boase, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd** |
| **Teitl:** | **Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013, sy'n diddymu Deddf Delwyr Metel Sgrap 1964 a Rhan 1 o Ddeddf Cerbydau (Trosedd) 2001 ac yn cyflwyno trefn reoleiddio ddiwygiedig ar gyfer diwydiannau delwyr metel sgrap a datgymalu cerbydau, a bydd yn darparu fframwaith deddfwriaethol cryf yr oedd y Cyngor ei hangen er mwyn rhoi pŵer i'r Cyngor a'r Heddlu i frwydro yn erbyn troseddwyr sy'n anrheithio'r wlad o fetel, ac yn cryfhau a chefnogi delwyr metel sgrap cyfreithlon.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Hysbysu'r Cabinet o ddarpariaethau Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 a gofyn iddynt gymeradwyo'r pwerau dirprwyol a gosod ffioedd a roed i'r Awdurdod.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n dirprwyo pwerau Deddf Delwyr Metel Sgrap i Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

3.2 Bod yr Aelodau'n dirprwyo'r penderfyniad i fabwysiadu lefel y ffi ar gyfer trwyddedau Metel Sgrap i Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, gyda chymeradwyaeth gan yr Aelod Arweiniol.

## 4. Manylion am yr Adroddiad.

4.1 Mae dwyn metel yn cael effaith enfawr ar yr economi gan gostio rhwng £220 miliwn a £777 miliwn y flwyddyn. Er mwyn delio â'r mater mae rheoliadau delwyr metel sgrap, a gyflwynwyd yn yr 1960au, wedi'u diwygio. Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013.

4.2 Derbyniodd Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013 gydsyniad brenhinol ar 28 Chwefror 2013 a disgwylir y bydd yn dod i rym o'r 1 Hydref 2013.

4.3 Mae'r Ddeddf yn cynnal mai'r Awdurdod Lleol yw prif reolydd y diwydiannau hyn. Mae'n rhoi pŵer i'r awdurdodau lleol i reoleiddio'r diwydiannau drwy ddarparu pŵer i wrthod rhoi trwydded a thynnu trwydded yn ôl os yr ystyrir fod

y deliwr yn ‘anaddas’.   Byddai penderfynu a ydynt yn anaddas yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys unrhyw euogfarn troseddol perthnasol.  Bydd y Ddeddf yn rhoi pŵer mynediad ac arolygu addas i’r awdurdodau lleol a swyddogion yr heddlu ac yn rhoi pŵer i gau safleoedd heb awdurdod.

4.4 Bydd y Ddeddf yn creu dau fath gwahanol o Drwydded Metel Sgrap, un ai “Trwydded Safle” neu “Trwydded Casglwyr Symudol”.  Bydd yn rhaid i Gasglwr Symudol gael trwydded ym mhob ardal Awdurdod Lleol y maent yn gweithredu ynddynt.

4.5 Mae gofyniad bod Corff Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadw cofrestr gyhoeddus hefyd.   Yn Lloegr, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cadw cofrestr.

4.6 Bydd unrhyw ddeliwr sydd wedi’u cofrestru dan Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 1964, neu weithredwr arbed ceir sydd wedi cofrestru dan Ddeddf Cerbydau (Trosedd) 2001, yn cael parhau i weithredu’n gyfreithlon, gyda’r amod eu bod yn gwneud cais am drwydded o dan y Ddeddf newydd erbyn 15 Hydref 2013. Bydd eu trwyddedau cyfredol yn parhau i fod yn ddilys nes bod yr Awdurdod Lleol yn rhoi trwydded newydd.  Mae’r trefniadau pontio hyn wedi’u gweithredu drwy Orchymyn Cychwyn.

4.7 Onid yw’r ymgeisydd wedi cofrestru o dan Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 1964 neu Ddeddf Cerbydau (Trosedd)  2001 cyn 1 Hydref yna ni fyddant yn gallu gweithredu’n gyfreithlon ar ôl 1 Hydref nes y bydd ganddynt drwydded.  Bydd gorfodaeth llawn gofynion Deddf 2013 yn dechrau o’r 1 Rhagfyr 2013.

4.8 O dan Ddeddf 1964 roedd yn rhaid i’r Cyngor gofrestru unrhyw un sy’n eu hysbysu eu bod yn gweithredu fel delwyr metel sgrap.  O dan Ddeddf 2013 bydd y cynghorau yn gallu gwrthod rhoi trwydded pan benderfynir nad yw’r ymgeisydd yn unigolyn addas i weithredu fel delwyr metel sgrap.  Mae canllawiau ar gael ynglŷn ag asesu addasrwydd ymgeiswyr a byddai hwn yn cynnwys gwybodaeth megis euogfarnau blaenorol perthnasol.

4.9 Pan fydd y Cyngor yn ystyried ei bod yn hanfodol gwrthod rhoi trwydded, amrywio trwydded neu dynnu trwydded yn ôl yna mae’n rhaid iddynt roi cyfle i’r ymgeisydd / trwyddedai wneud sylwadau ar lafar.  Mae Canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol ynglŷn â’r Ddeddf yn argymell mai Pwyllgor Trwyddedu’r Cyngor yw’r corff priodol i wrando ar y fath sylwadau.   Gall unigolyn sy’n anfodlon gydag unrhyw benderfyniad gyflwyno apêl i Lys yr Ynadon.

4.10 Gellir dirprwyo ceisiadau sydd heb wrthwynebiad neu rhai heb unrhyw ymholiadau am addasrwydd yr ymgeisydd i’r Swyddogion Trwyddedu er mwyn gwneud penderfyniad a ddylid cymeradwyo neu wrthod y cais.

4.11 Mae pwerau eraill sydd wedi’u cynnwys yn y Ddeddf yn cynnwys:

- Arddangos trwyddedau
- Delwyr i gynnal gwiriadau hunaniaeth ar ddarparwyr metel sgrap
- Delwyr i gadw cofnodion o unrhyw sgrap a dderbyniwyd neu a waredwyd

- Gwahardd taliadau arian parod.  Dim ond siec na ellir ei drosglwyddo neu drosglwyddiad arian y gellir ei dderbyn fel taliad.
- Awdurdodau Lleol a’r Heddlu i fynd i arolygu safleoedd trwyddedig
- Addasu neu wrthod addasu trwydded
- Tynnu trwydded yn ôl
- Cau safleoedd gyda Gorchymyn Cau gan Lys Ynadon
- Sefydlu Cofrestr Cyhoeddus, gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru, o’r holl unigolion a busnesau sydd wedi’u trwyddedu fel delwyr metel sgrap.

4.12 Bydd y drefn trwyddedu a grëwyd gan Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013 yn dechrau ar 1 Hydref 2013. Er mwyn rhoi amser i’r cynghorau brosesu ceisiadau heb achosi i fusnesau orfod atal gweithredu, mae’r Swyddfa Gartref yn gweithredu proses bontio.

4.13 Bydd y trefniadau pontio yn cael eu gweithredu drwy orchymyn cychwyn fydd yn cael ei sefydlu ym mis Awst 2013. Bydd y gorchymyn yn caniatáu i gynghorau osod ffi trwydded ar gyfer ceisiadau o’r 1 Medi.  Bydd hefyd yn nodi fod adrannau eraill y Ddeddf yn dechrau ar 1 Hydref, ar wahân i’r rhan fwyaf o’r prif droseddau a gofynion yn ymwneud â gorfodaeth, fydd yn dechrau ar 1 Rhagfyr.  Eithriad i hyn fydd gwahardd defnyddio arian parod i dalu am fetel sgrap fydd yn dod i rym ar 1 Hydref hefyd.

4.14 Mae Deddf 2013 yn creu pŵer i gynyddu’r ffioedd, er mwyn galluogi i’r awdurdodau lleol adennill costau gweinyddu a gofyn am gydymffurfiaeth gyda’r drefn.  Mae’r Swyddfa Gartref wedi cynhyrchu canllawiau i gynorthwyo’r Awdurdodau Lleol.  Wrth osod y ffioedd mae’n rhaid i’r Awdurdod gydymffurfio â Chyfarwyddiaeth Gwasanaethau’r UE a Rheoliadau Darpariaeth Gwasanaethau 2009. Gall yr Awdurdod newid ffi pan fydd yn adlewyrchu gwir gost prosesu cais trwydded a gwirio cydymffurfiaeth ag amodau’r drwydded a gofynion y Ddeddf yn unig.

4.15 Gohiriwyd ganllawiau’r LGA a’r Swyddfa Gartref yn ymwneud â gweithredu’r Ddeddf a gosod ffioedd ac fe’u cyhoeddwyd ym mis Awst 2013.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Bydd gweithredu’r Ddeddf yn cyfrannu at dyfiant economaidd drwy reoleiddio a gorfodi diwydiant metel sgrap.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Bydd gweithredu a gorfodi’r Ddeddf yn cael ei gyflawni gan staff cyfredol Gwasanaeth Trwyddedu’r Cyngor.

6.2 Mae Deddf 2013 yn creu pŵer i gynyddu ffioedd, i alluogi’r Awdurdodau Lleol i adennill costau sy’n deillio o weinyddu a gwirio cydymffurfiaeth â’r drefn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Bydd defnyddio'r pwerau newydd yn amodol ar Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wrth ddatblygu'r drefn, cyn ei gweithredu. Mae'r Gwasanaeth yn ymroi i gynnal Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr holl bolisïau a gweithdrefnau newydd.

**8. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol ar yr adroddiad hwn. Ymgynghorwyd gyda Phennaeth y Gwasanaeth, Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru am weithredu'r ddeddfwriaeth.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol amlwg a bydd unrhyw gostau yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau cyfredol neu yn y ffioedd.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Efallai y bydd her gyfreithiol yn wynebu'r Cyngor onid oes system ar waith ar gyfer gweithredu a gorfodi delwyr metel sgrap.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013